**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

7 Awst 2025

Annwyl Peredur,

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Pwyllgor am eich cefnogaeth i'r adolygiad diweddar o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA). Mae ymgysylltu â'ch Clerc a'i dîm wedi bod yn allweddol o ran ein helpu i ddeall yn well sut y mae'r SIIA yn gweithio ar hyn o bryd a sut y gellid ei gryfhau ymhellach.

Archwiliodd yr adolygiad yr SIIA o'r cychwyn cyntaf i'w ffurf bresennol ac ystyriodd ei ddiben, ei gryfderau, ei effaith a'i gynulleidfa. Asesodd fy swyddogion effeithiolrwydd, cydlyniant a thryloywder y broses SIIA, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn integreiddio effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch y Gyllideb. Ystyriodd yr asesiad hefyd sut y mae'r SIIA yn cefnogi'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fel y gwyddoch, datblygwyd yr SIIA yn 2015-16 ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'r nod o arddel dull strategol ac integredig o ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn asesu effeithiau cyllidebol yn unol â chyfrifoldebau statudol a chyfrifoldebau ehangach. Mae'r adolygiad wedi tynnu sylw at sawl agwedd gadarnhaol ar y dull presennol. Cydnabyddir yn eang bod yr SIIA yn offeryn gwerthfawr sy'n dwyn ynghyd sawl ystyriaeth statudol a strategol mewn un broses, gan gefnogi penderfyniadau gwariant mwy gwybodus a mwy cytbwys. Mae wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau a blaenoriaethau allweddol – gan gynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg, hawliau plant a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – ac wedi hybu ffordd fwy integredig a chyfannol o ystyried effaith mewn penderfyniadau ar wariant trawslywodraethol.

Canfuom hefyd fod y SIIA wedi creu fframwaith cyffredin ar gyfer myfyrio a herio. Mewn llawer o achosion mae hyn wedi ysgogi sgyrsiau ystyrlon yn nyddiau cynnar penderfyniadau ar y gyllideb. Mae'r rhain yn sylfeini cryf y gallwn adeiladu arnynt.

Cynhaliwyd yr adolygiad drwy gyfuniad o ymchwil ddesg, dadansoddiad o ddogfennaeth SIIA bresennol, ymgysylltu â chydweithwyr mewnol a sgyrsiau ag ystod o randdeiliaid a phartneriaid allanol. I'n helpu i ddysgu o arferion da mewn mannau eraill, ymgysylltodd fy swyddogion hefyd â chynrychiolwyr llywodraethau rhyngwladol eraill. Sicrhaodd y dull cynhwysfawr hwn ddealltwriaeth eang a chytbwys o'r sefyllfa bresennol a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi nodi tri maes allweddol y gallwn eu datblygu i wella'r SIIA.

- Proses – Mae cyfle i wella'r ffordd yr ydym yn ymgymryd â'r SIIA. Canfu'r adolygiad fod angen mwy o eglurder a chysondeb o ran sut y mae'r SIIA yn cael ei ddatblygu ar draws Llywodraeth Cymru. Byddwn yn treialu dull newydd sy'n seiliedig ar weithdai, gan ddod â chydweithwyr ynghyd o bob rhan o'r llywodraeth a rhoi'r dystiolaeth yng nghanol y trafodaethau hyn i gefnogi atebolrwydd. Bydd hyn yn parhau i ymgorffori'r SIIA mewn ffordd fwy ystyrlon yn y broses gyllidebol.

- Cynnwys – Drwy adeiladu'r SIIA drwy weithdai ymgysylltu byddwn yn gallu defnyddio sylfaen ehangach o gydweithwyr, casglu lefel ddyfnach o wybodaeth drwy sgyrsiau a thrwy hynny wella dyfnder yr SIIA.

- Cyflwyniad – Bydd gwella sut y mae'r SIIA yn cael ei strwythuro, ei ysgrifennu a'i rannu yn allweddol i gynyddu ei hygyrchedd, ei ddefnyddioldeb a'i ddylanwad cyffredinol.

Yn awr bod yr adolygiad wedi'i gwblhau, byddwn yn symud i gam nesaf y gwaith hwn a fydd yn cynnwys treialu'r gweithdai a grybwyllir uchod. Ein bwriad yw cynnal cyfres o weithdai rhyngweithiol yr hydref hwn ar gyfer SIIA 2026-27 a fydd yn cyd-fynd â'r Gyllideb nesaf. Bydd y gweithdai hyn yn cynnwys cyfraniadau gan ein hunedau tystiolaeth a dadansoddol, rhanddeiliaid allweddol yn ogystal â chydweithwyr polisi a chyllid i gael persbectif gwirioneddol integredig. Bydd y sesiynau yn cael eu cynllunio i fod yn gydweithredol, gan greu gofod lle y gall ystod eang o brofiadau fwydo i mewn i'r SIIA.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i'ch tîm am ei ymgysylltiad â'r adolygiad; roedd eu mewnwelediad yn arbennig o werthfawr.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language